

## Allan o Montomeryshire Worthies gan Richard Williams:

MANUEL, DAFYDD, a poet, who lived in a cottage called Byrdir, on Gwernafon farm, Trefeglwys, and who flourished about the year 1700. A poem of his, entitled "Bustl y Cybyddion,"—a satire upon Avarice—was published in the *Blodeugerdd*, and many of his carols and compositions were published in various collections about the beginning of the last century. Some have also appeared in print for the first time in Lloyd's *History of Powys Fadog*. He was present at an eisteddfod at Machynlleth in the summer of 1701, when he composed an englyn, which may be found in the *Gwyllydydd* for 1836. Some traditions of him may also be found in *Y Brython* vol. V., p. 209. The Peniarth MSS. include a large number of his compositions. Mr. Nicholas Bennett, of Glanyrafon, has also about thirty of them in MS. dated between 1689 and 1719, some displaying considerable merit. Dafydd Manuel ("Yr hen Fanuel o'r Byrdir," or "Yr hen Fanuel y Prydydd" as he was generally called) lived to an extreme old age, being, it is said, 101 years old when he died. The parish register of Trefeglwys contains the following entry of his burial:—"David Manuel "sepult. fuit 16 die Maii 1726."—His wife Margaret had died before him in 1699. They left three children—a son David, usually called "Deio," and two daughters, Mary (Malen) and Anne. The daughters were excellent poets, and several of their compositions in MS. are in Mr. Bennett's possession. Mary was especially noted for her ready wit and power of repartee, and as a Pennillion singer with the harp—a mode of singing which to be effective, demands very great skill, a quick ear, and a retentive memory. In Bardd Alaw (Parrv)'s *Welsh Harver*, vol. 2. we have a melody associated with her name, namely, "Hoffedd Merch "Dafydd Manuel," (The delight of David Manuel's daughter.)

## CAROL PLYGAIN

gan ANN MANUEL, TREFEGLWYS (17eg ganrif)  
(merch Dafydd Manuel 1624?-1726)

*ar Tri Thrawiad neu Gadael Tir y Ffordd Hwyaaf*

Cydganed pob gene' yn beredd i'r bore  
Trwy adrodd mawr wyrthie a donie Duw Dad:  
Yn danfon ei unig wir Fab bendigedig  
Yn Feddyg caredig a Ceidwad.

Pan oeddem dan bechod danfonodd y Duwdod  
Ail berson y Drindod er cymod y cam;  
Yn rhad iechydwrith dros bob dyn ar unweth -  
Hyn ydoedd hir obeth 'rhen Abram.

Fe ddwede'r Proffwydi yn llewyrch goleuni  
Y dôi yr hael Iesu i'n prynu mewn pryd;  
I dynnu y caethion yn Adda yn rhyddion  
O'u tynion erch gyffion a'u gofid.

Hwn ydyw'r Iôr enwog a'r Llywydd galluog,  
Duw Iesu dywysog, Eneiniog y ne';  
Fe ddaeth ei Fawrhydi i'r adfyd a'r tlodi,  
Yn fabi i Fari ar fore.

Hyn ydoedd ryfeddol! Mab Duw yn ddyn cnawdol,  
Yn blentyn naturiol da buddiol i'r byd;  
Fe rodd y Gorucha' ei Fab i'r byd yma  
I dynnu hil Adda o'i holl ofid.

Yn ifanc dechreue yn nerthol wneud gwyrthie,  
Iacháu pob clefyde a briwie'n y byd;  
Â'i air fe wnai'n rymus y dŵr yn win melys, -  
I'r clwyfus afiachus rhoi iechyd.

Y ffordd bydde'n cerdded, gwnai'r deillion i weled,  
A hwythe'r byddaried i glywed yn glir,  
Gwnai'r mud i lefaru a'r meirw i godi,  
Iacháu pob diferli a dolur.

Wrth fynd dros y moroedd gostege'r tymhestloedd,  
I'w air ufuddhaodd yn gwyntoedd a'r glaw;  
Er hynny'r Iddewon groeshoelie y Cyfion,  
Trwy 'i ddeudroed rhoen hoelion a'i ddwyllaw.

Bu t'wllwch dychrynlyd a daeargryn hefyd,  
Y dydd y croeshoeliwyd corff diwad Fab Duw;  
Y ddaear a gryne ac agor wnai'r bedde,  
A'r seintie gyfode, gwir ydyw!

Gweddio roedd ynte er maint y poenydie,  
Ar 'i Dad nefol fadde 'i beie bob un;  
A'i weddi ddiwedda oedd at y Gorucha,  
Am fadde i hil Adda'r holl ofyn.

Y trydydd dydd eilweth, cyfode o'i fedd ymeth,  
I fywyd yn berffeth - gor'chafieth yn glir;  
I'r nef y dyrchafe lle mae byth yn eiste',  
Yn dadle pechode pechadur.

Trown ato o 'wyllys i'w foli'n ofalus,  
Os mynnwn Baradwys, sef gwiw lys y gwawl;  
Mynych fyfyrio a beunydd weddio,  
Yw'r ffordd hwnt i nwyfre'r wlad nefawl.

Os byddwn byw'n dduwiol tra yma'n arhosol,  
Cawn fynd i'r wlad nefol - y freiniol wen fro;  
Eneidie y cyfion medd Crist a'i 'Bostolion,  
Gâ'n fynd i'r nef dirion i dario.

Trown heibio bob maswedd erch bechod o'n buchedd,  
Gadawn yr anwiredd, mae'r diwedd yn dod;  
Can's blin a fydd inni am bob rhith drygioni -  
Bydd taflu i'r du wely diwaelod.

Glanhawn y gydwybod a'n buchedd o bechod,  
Ymg'weiriwn yn barod i ddiwrnod a ddaw;  
Os da fydd ein buchedd cawn fyw mewn gorfoledd  
Byth ar ei dda haeledd ddeheulaw.